CYFLAWNI TEGWCH A RHAGORIAETH MEWN ADDYSG A GWELL LLES I BAWB

EQUITY AND EXCELLENCE IN EDUCATION AND ENHANCED WELLBEING FOR ALL

# Arweiniad i Ysgolion

## Asesu a Rheoli Risgiau:

## Disgyblion sy'n Dangos Ymddygiadau Heriol

## Y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant Rhondda Cynon Taf

Diweddarwyd Hydref 2022

**Cynnwys**

**1 Beth yw ystyr risg ac asesu risg?**

**2 Asesu risg**

**3 Lleihau risg**

**4 Mesurau rheoli risg**

**5 Dull cytunedig**

**6 Hyfforddiant staff**

**7 Gwerthuso**

**8 Rheoli'r effaith ar staff sy'n gweithio gyda disgyblion a all arddangos ymddygiad heriol.**

**Atodiadau:**

**1 Opsiynau o ran lleihau risg**

**2 Cynllun rheoli ymddygiad cytunedig**

**3 Cyfathrebu strategaeth rheoli risg yr ysgol**

**4 Hyfforddiant staff**

**5 Gwerthuso strategaeth rheoli risg yr ysgol**

**Asesu a Rheoli Risgiau ar gyfer Disgyblion sy'n Dangos Ymddygiadau Heriol**

## Cyflwyniad

Dylid darllen y cyfarwyddyd, y canllaw, a'r arweiniad canlynol ar y cyd ag *Ymyriad Corfforol Cyfyngol: defnyddio grym rhesymol i atal a rheoli plant a phobl ifainc.*

Cafodd y ffurflen asesu a rheoli risg sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen yma ei pharatoi i gynorthwyo athrawon, cynorthwywyr cymorth dysgu, ac oedolion eraill sy'n gweithio mewn ysgolion, ac mewn darpariaethau arbenigol i wella arferion mewn perthynas ag asesu a rheoli'r risg a gyflwynir gan ddisgyblion sydd ag ymddygiad difrifol o heriol. Gallai'r risg fod i'r disgyblion eu hunain, i ddisgyblion eraill, i athrawon, i oedolion eraill, neu i eiddo.

Deddf Cydraddoldeb 2010 - Dyletswydd Ragweithiol. Mae angen i'n holl bolisïau a chanllawiau barchu gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys y dyletswyddau rhagweithiol. Mae Adran 20 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn pwysleisio'r angen i'r Cyngor ac i ysgolion fod yn rhagweithiol mewn perthynas ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth sy'n anabl ac i gymryd camau rhesymol i ddileu rhwystrau sy'n eu hatal rhag manteisio ar wasanaethau. Mae'r ddyletswydd yn 'rhagweithiol' o ran bod rhaid pwyso a mesur beth yw'r rhwystrau sy'n atal unigolion anabl rhag manteisio ar wasanaethau a chymryd rhan mewn profiadau ac ystyried camau gweithredu ymlaen llaw yn ei sgil.

## 1 Beth yw ystyr ‘risg’ ac ‘asesu risg’?

Ystyr "risg" yw unrhyw amgylchiadau a allai arwain at ganlyniadau andwyol i'r disgybl neu i eraill. Gall risgiau godi mewn perthynas â nifer o ffactorau, megis

- y trefniadau iechyd, gofal a chymorth cymdeithasol ar gyfer y disgybl;
- rhyngweithio rhwng y disgybl a'i (h)amgylchedd;
- trais a/neu ymosodedd tuag at y disgybl neu tuag at eraill,
- effaith uniongyrchol ymddygiad(au) a gyflwynir gan y disgybl;

- mesurau ac ymyriadau a ddefnyddir i leihau, cyfyngu neu reoli'r risgiau a gyflwynir i'r disgybl ac eraill.

Proses yw asesu a rheoli risg sy'n cynorthwyo staff ac eraill i ystyried materion risg, i weithredu'n rhesymol, ac i ddysgu o'r hyn sy'n digwydd mewn arferion bob dydd. Mae asesu a rheoli risg yn golygu, gan mwyaf, y canlynol:

- Defnyddio'r hyn sy'n hysbys, yng ngoleuni profiad, sgiliau a synnwyr cyffredin, i lunio barn resymol ynghylch materion risg
- Dilyn cyfarwyddiadau, gwybodaeth gymwys ac ati a roddwyd er budd materion iechyd a diogelwch
- Pwyso a mesur opsiynau a chymryd risgiau rhesymol.
- Cymryd camau i weithredu ystod o wahanol ddulliau ac agweddau i ddiogelu'r disgybl ac i eraill Trwy weithio yn y ffordd yma, bydd modd gwneud penderfyniadau, a chymryd camau gweithredol, at y dibenion yma:
    - Cyfyngu ar lefel y risg cynhenid i'r disgybl ac i eraill
    - Mentro'n ofalus i ehangu profiad y disgybl, a sicrhau'i fod/bod yn gwneud y gorau posibl o'i botensial/photensial unigol
    - Osgoi risgiau afresymol i'r disgybl yma ac i eraill
    - Sicrhau bod y strategaethau a ddefnyddir i ymateb i ymddygiad heriol yn rhesymol, ac yn gymesur â'r risgiau a gyflwynir gan yr ymddygiad.

Bydd strategaeth asesu a rheoli risg yn cynorthwyo staff i wneud penderfyniadau ynghylch yr hyn y gellir yn rhesymol ei wneud i gyfyngu ar risgiau. Ar yr un pryd, bydd o help iddyn nhw baratoi ar gyfer adegau pan fydd pethau'n mynd yn o chwith. Mae modd rhagweld ymddygiadau heriol yn aml iawn, hyd yn oed os gall hi fod yn anodd rhagweld pryd yn union y byddant yn digwydd, neu raddfa'r her a gyflwynir ganddyn nhw. ~~Yn gyffredinol~~,
Mewn egwyddor, dylai ysgolion:

- Ymchwilio i'r rhesymau pam mae'r disgybl yn ymddwyn mewn ffyrdd sy'n peri ac achosi risg a pherygl.
- Ceisio deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar yr ymddygiad
- Cydnabod yr arwyddion rhybuddio sy'n dangos bod ymddygiad y disgybl yn dechrau ymgodi

- Datblygu'r sgiliau ar gyfer rheoli sefyllfaoedd anodd mewn ffordd gymwys a sensitif. Dylid pennu'r mesurau a gytunir ar gyfer rheoli risgiau a adnabyddir mewn cynllun rheoli ymddygiad cytunedig ar gyfer y disgybl unigol. Yn ogystal â hyn, bydd modd defnyddio asesu a rheoli risg mewn sefyllfaoedd argyfwng a brys pan fydd risgiau annisgwyl na ellir eu rhagweld yn digwydd.

Mae modd i ysgolion wneud cais i dderbyn cymorth gan y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant drwy'r Model Darparu Gwasanaeth i helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r pwyntiau uchod.

## 2 Asesu risg

Mae asesu risg yn golygu ystyried risg gwirioneddol, a risg posibl hefyd. Dyma'r camau
allweddol:

- **Asesu'r cyd-destun ar gyfer risg a pherygl** - ceisio rhagweld a rhagfynegi'r sefyllfaoedd lle mae risgiau a pheryglon yn digwydd, neu lle gallen nhw ddigwydd. Er enghraifft, lle gallai disgyblion deimlo'n rhwystredig, lle mae disgyblion yn agos i ffyrdd agored, ar gludiant neu gerbydau, neu mewn lleoedd sy'n orlawn o bobl.
- **Asesu tebygolrwydd** – ceisio amcangyfrif pa mor debygol yw hi y bydd y sefyllfa o risg yn digwydd, a ph'un ai yw unrhyw anaf neu niwed yn *debygol iawn* o ddigwydd, yn *debygol* o ddigwydd, neu'n *annhebygol* o ddigwydd.
- **Asesu difrifoldeb** – ceisio mesur a barnu'r math o anaf a niwed a allai deillio o ganlyniad. Er enghraifft: tagu, cleisio, gwaedu, ysigo, torri esgyrn, straen, gofid, ac ati.

Rhagdybir yma y bydd yr ysgol yn cymhwyso a defnyddio'r ffurflen asesu a rheoli risg (gweler atodiad 1).

Pan fydd y risgiau wedi'u hasesu, dylid cofnodi pob un yn unol â gofynion perthnasol, megis polisïau'r Awdurdod Lleol neu'r Ysgol. Os credir bod risgiau yn rhy ddifrifol i'r disgybl neu i eraill, mae'n bosibl y bydd yr ysgol angen defnyddio fframweithiau ac offer asesu risg ffurfiol, megis ‘Pum cam i asesu

risgiau’ yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (www.hse.gov.uk/pubns/indg163W.pdf).

### 3 Lleihau risg

Mae lleihau risg yn gofyn am archwilio opsiynau rheoli risg, gan ystyried manteision a diffygion pob opsiwn i'r disgybl, i'r staff, ac i eraill sy'n gysylltiedig. Ar ôl pwyso a mesur yr opsiynau, mae'n bosibl y bydd rhai yn cael eu gweld yn anaddas; bydd modd diystyru'r rhain. Bydd hynny, fel arfer, am fod eu heffaith yn annigonol, neu am fod gormod o ddiffygion ganddyn nhw. Dylid cadw cofnod o opsiynau o ran lleihau risg a gafodd eu harchwilio a'u diystyru, yn ogystal â'r rhai a fabwysiadwyd, ar gyfer pob disgybl (gweler Atodiad 2). Dylai lleihau risg gynnwys:

- Mesurau rhagweithiol i roi cymorth effeithiol i'r disgybl ac i atal anawsterau rhag ymddangos.
- Ymyriadau cynnar er mwyn rhoi cymorth i'r disgybl mewn sefyllfaoedd anodd, ac i osgoi problemau.
- Mesurau cynlluniedig ar gyfer rheoli'r disgybl, ac eraill, mewn modd diogel pan fydd problemau anochel yn codi.

Mewn amgylchiadau pan fydd pryderon y gallai'r opsiynau o ran lleihau risg sy'n cael eu hystyried arwain at risg i'r disgybl, ac i eraill, fe fyddai'n ddoeth i ysgolion geisio cyngor gan gyrff eraill. Efallai bod y rhain yn cynnwys:

- Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad
- Carfan Iechyd a Diogelwch yr ALl
- Y Bwrdd Lleol Diogelu Plant (BLlDP) ar gyfer pryderon mewn perthynas â disgyblion

### 4 Mesurau rheoli risg

Dylid seilio'r mesurau a ddewisir i atal risgiau rhag digwydd, i reoli risgiau a pheryglon sy'n codi,

ac i ymateb i anafiadau a niwed sy'n digwydd, ar werthusiad llawn o bob un o'r holl opsiynau rheoli risg. Wrth gytuno ar y strategaeth rheoli risg, mae'n bwysig i fod yn eglur parthed risgiau cynhenid

- a fydd yn parhau i fodoli, hyd yn oed ar ôl i'r strategaeth gael ei gweithredu;
- y gellir eu lleihau drwy weithredu'r strategaeth;
- y gellir eu hatal drwy weithredu'r strategaeth;
- sy'n gynhenid yn y strategaeth.

Dylai'r mesurau rheoli risg cytunedig fod yn sail i gynllun rheoli ymddygiad y disgybl ac i strategaeth rheoli risg yr ysgol. Dylid cofnodi pob un o'r holl benderfyniadau a wneir ynghylch opsiynau rheoli risg, yn unol â gweithdrefnau'r ysgol. Wrth ddewis gweithdrefnau rheoli risg ar gyfer cynllun rheoli ymddygiad y disgybl a strategaeth rheoli risg yr ysgol, dylai ysgolion fabwysiadu arferion cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chynnwys rhieni, neu'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant.

Fe ddylid, yn ogystal â hynny, ymgynghori â gweithwyr proffesiynol o asiantaethau eraill yn ystod proses penderfynu'r opsiynau gorau er mwyn dileu, lleihau neu gyfyngu ar y risg, heb osod cyfyngiadau afresymol ar y disgybl, ar ddisgyblion eraill, ar staff yr ysgol, neu ar eraill, neu roi eraill mewn risg afresymol. Er y bydd yr adeiladau a'r adnoddau sydd ar gael yn dylanwadu ar y dewis o ba strategaeth i'w defnyddio, ni ddylid gosod disgyblion, yn enwedig y rheiny sy'n agored i niwed, i ffwrdd o oruchwyliaeth uniongyrchol gan oedolion fel rhan o unrhyw strategaeth rheoli ymddygiad.

Os digwydd bod anghydfodau neu bryderon ynghylch y mesurau a ddefnyddir, byddai'n ddoeth i ysgolion geisio am gyngor gan y bobl neu'r cyrff a restrir yn yr adran flaenorol. (Gweler Atodiad 3)

## 5 Dull cytunedig

Ar ôl i'r cynllun rheoli ymddygiad a'r strategaeth rheoli risg gael eu cytuno, dylid eu rhannu â phob un o'r rheiny sy'n gyfrifol am weithredu'r cynllun neu am fonitro'i effaith. Bydd hyn yn gymorth i'r rheiny sy'n gysylltiedig wybod sut y mae'r disgybl yn cael ei gynorthwyo a'i gefnogi a pham; pa ymddygiadau sydd i gael eu rheoli a sut; a pha fesurau lleihau risg sydd i'w defnyddio a phryd (gweler Atodiad 4). Bydd modd rhannu'r strategaeth rheoli risg drwy grwpiau

trafod, drwy gyfarfodydd, a thrwy gylchredeg gwybodaeth. Dylid rhoi gwybod i'r rhain, ymhlith eraill:

- y disgybl
- rhieni'r plentyn, neu'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant
- aelodau o'r tîm addysgu, neu aelodau eraill o staff yr ysgol
- gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r disgybl, timau amddiffyn disgyblion; ac
- asiantaethau eraill.

Dylai ysgolion gadw cofnod o'r rheiny sy'n derbyn gwybodaeth am y strategaeth.

## 6 Hyfforddiant staff

Pan fydd y cynllun, a'r strategaeth rheoli risg, wedi cael eu rhannu gyda'r rheiny sy'n gweithio gyda'r disgybl, ac yn ei gynorthwyo a'i gefnogi, dylid rhoi ystyriaeth i allu a medr y staff i weithredu'r strategaeth. Dylid penderfynu pa hyfforddiant a allai fod yn angenrheidiol cyn gweithredu'r strategaeth. Bydd llwyddiant wrth weithredu'r strategaeth yn dibynnu ar hyfedredd, medrusrwydd, medrau, cymhwysedd, ac arbenigedd y staff. Mae modd i'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad gefnogi ysgolion yn hyn o beth. Dylai cofnodion yr ysgol ddangos yr anghenion hyfforddi a adnabuwyd ac a nodwyd o ganlyniad i'r strategaeth, a sut a phryd y darparwyd hyfforddiant i alluogi'r staff i'w gweithredu. Os yw'n amlwg fod anghenion hyfforddi arwyddocaol neu sylweddol gan rai o'r staff, dylid addasu gwaith gweithredu'r strategaeth rheoli risg hyd nes y bydd hyfforddiant staff perthnasol wedi cael ei ddarparu. Mewn rhai amgylchiadau, bydd angen hyfforddiant staff fel mater o frys, er mwyn cael gweithredu'r strategaeth heb oedi (gweler Atodiad 5).

## 7 Gwerthuso

Dylai ysgolion adolygu mesurau asesu a rheoli risg yn rheolaidd. Dylid adrodd, nodi, a rhoi gwybod am bob gwerthusiad o gynlluniau a strategaethau, a'u cofnodi yng nghofnodion yr ysgol. Bydd y rhain yn gwneud cyfraniad pwysig i lywio cynllunio yn y dyfodol, ac i wella arferion bob dydd. Os bydd lefel y risg

o'r fath fel bod angen defnyddio grym rhesymol er mwyn atal y disgybl, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i bolisi Cyngor Rhondda Cynon Taf ar **Ymyriad Corfforol Cyfyngol: defnyddio grym rhesymol i atal a rheoli plant a phobl ifainc.** Bydd angen cyflwyno cofnod manwl o ddigwyddiadau i'r Awdurdod Lleol drwy'r weithdrefn adrodd y cytunwyd arni ar gyfer pob digwyddiad o ymyriad corfforol.

## 8 Rheoli'r effaith ar staff sy'n gweithio gyda disgyblion a all arddangos ymddygiad heriol.

Cydnabyddir, gyda phryder, pa mor agored i niwed yw staff ysgol o ganlyniad i ymddygiad heriol disgyblion yn ystod eu gwaith. Mae'r pryderon hyn yn cael eu trin o ddifrif, a gwneir pob ymdrech i atal, lle bynnag y bo modd, sefyllfaoedd o'r fath rhag digwydd a lleihau canlyniadau ymddygiad heriol pe bai'n digwydd.

Mae'n bwysig bod staff ysgol sydd mewn perygl o niwed neud sydd wedi'i brofi, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Dylai amgylchedd ac ymarferion gwaith staff ysgol, yn enwedig y rheiny sy'n agored i niwed, gael ei fonitro. Caiff mesurau, camau rheoli ac anghenion hyfforddi addas eu pennu a'u rhoi ar waith o fewn dyraniadau adnoddau, er mwyn gofalu fod risg trais yn cael ei lleihau, a bod effaith niwed yn cael ei lleddfu.

Rhaid rhoi gwybod am bob digwyddiad o niwed o ganlyniad i ymddygiad heriol disgyblion i’r Uwch Arweinydd dynodedig, sy’n gyfrifol am fonitro ac adolygu lles staff yn gyffredinol.

Mae modd dod o hyd i gyngor a chanllawiau ym Mholisi Trais yn y Gwaith y Cyngor.

**Atodiad 1**

# Asesiad Risg: Disgyblion gydag Ymddygiadau Heriol

| **Enw'r Ysgol:** | | **Enw'r disgybl:** | | **Dyddiad geni:** | |
|---|---|---|---|---|---|

| **Adnabod Risg** | |
|---|---|
| A yw'r risg yn botensial neu'n wirioneddol? (A oedd digwyddiad eisoes?) | |
| Rhestr o'r rhai wedi'u heffeithio gan y risg | |
| **Asesu Risg** | |
| Ym mha sefyllfaoedd fydd y risg yn digwydd fel arfer? | |
| Pa mor debygol yw hi y bydd y risg yn codi? | |
| Os yw'r risg yn codi, pwy sy'n debygol o gael anaf neu niwed? | |
| Pa fathau o anafiadau neu niwed sy'n debygol o ddigwydd? | |
| Pa mor ddifrifol yw'r deilliannau andwyol? | |

**Asesiad wedi'i gwblhau gan:**

| **Enw:** | | **Swydd:** | | **Llofnod:** | | **Dyddiad:** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Atodiad 2**

# Lleihau Risg

| Enw'r Ysgol: | | Enw'r disgybl: | | Dyddiad geni: | |
|---|---|---|---|---|---|

| Opsiynau o ran lleihau risg | | | |
|---|---|---|---|
| **Mesurau** | **Opsiynau posibl** | **Manteision** | **Anfanteision** |
| Ymyriadau rhagweithiol i atal risg | | | |
| Ymyriadau cynnar i reoli risg | | | |
| Ymyriadau ymatebol yn sgil deilliannau anffafriol | | | |

**Wedi'i lenwi gan:**

| Enw: | | Swydd: | | Llofnod: | | Dyddiad: | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Atodiad 3

# Cynllun Rheoli Ymddygiad Cytunedig a Strategaeth Rheoli Risg yr Ysgol

| **Enw'r Ysgol:** | | **Enw'r disgybl:** | | **Dyddiad geni:** | |
|---|---|---|---|---|---|

| **Ffocws y mesurau** | **Mesurau i'w defnyddio** | **Lefel y risg**<br>**Anfanteision** |
|---|---|---|
| Ymyriadau rhagweithiol<br>i atal risg, gan gynnwys agweddau amgylcheddol (sŵn, pobl, newidiadau, gweithgareddau a chyfathrebu) | | |
| Ymyriadau cynnar<br>i reoli risg | | |
| Ymyriadau ymatebol<br>yn sgil deilliannau anffafriol (er enghraifft, tawelu, rhyngweithio ar lafar / di-eiriau, ailgyfeirio, adleoli) | | |

**Cytunwyd gan:**

| **Rhiant/Gwarcheidwad:** | | **Perthynas â'r disgybl:** | | **Llofnod:** | | **Dyddiad:** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aelod o staff:** | | **Rôl:** | | **Llofnod:** | | **Dyddiad:** | |

**Atodiad 4**

# Cyfathrebu strategaeth rheoli risg yr ysgol

| Enw'r Ysgol: | | Enw'r disgybl: | | Dyddiad geni: | |
|---|---|---|---|---|---|

| Cynlluniau a strategaethau wedi'u rhannu â: | Dull cyfathrebu | Dyddiad gweithredu |
|---|---|---|
| | | |

**Wedi'i lenwi gan:**

| Enw: | | Swydd: | | Llofnod: | | Dyddiad: | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Atodiad 5**

# Hyfforddiant staff

| Enw'r Ysgol: | | Enw'r disgybl: | | Dyddiad geni: | |
|---|---|---|---|---|---|

| Anghenion hyfforddi a nodwyd | Hyfforddiant a ddarparwyd er mwyn diwallu anghenion | Dyddiad cwblhau'r hyfforddiant |
|---|---|---|
| | | |

**Wedi'i lenwi gan:**

| Enw: | | Swydd: | | Llofnod: | | Dyddiad: | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Atodiad 6**

## Gwerthuso strategaeth rheoli risg yr ysgol

| **Enw'r Ysgol:** | | **Enw'r disgybl:** | | **Dyddiad geni:** | |
|---|---|---|---|---|---|

| **Mesurau a nodwyd ac a bennwyd** | **Effeithiolrwydd wrth gynorthwyo a chefnogi'r disgybl** | **Yr effaith ar risg** |
|---|---|---|
| Ymyriadau rhagweithiol i atal risg | | |
| Ymyriadau cynnar i reoli risg | | |
| Ymyriadau ymatebol yn sgil deilliannau anffafriol | | |
| **CAMAU GWEITHREDU AR GYFER Y DYFODOL** | | |

**Gwerthuswyd gan:**

| **Enw:** | | **Swydd:** | | **Llofnod:** | | **Dyddiad:** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|